**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Tachwedd 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Tachwedd 2010

## Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
- ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
- ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

# Adroddiad ar Fesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Dyfyniadau o'r Rheolau Sefydlog:

*14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*

*i. gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

……………………………………………………………..

*23.18 Ar yr un pryd ag y bydd [yr] Aelod [sy'n gyfrifol amdano] yn cyflwyno Mesur arfaethedig, rhaid hefyd gosod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:*

*(vi) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*

*(a) unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn arwain atynt;*
*(b) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau hynny godi; a*
*(c) lle y byddai'r costau'n syrthio;*

## Cyflwyniad

1. Trafododd y Pwyllgor Cyllid Fesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2010.

2. Cyflwynwyd y Mesur arfaethedig i'r Pwyllgor gan Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol amdano, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau. Roedd Chris Enness o Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân a Martin Jennings o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn bresennol hefyd. Yn dilyn y cyfarfod, anfonodd Ann Jones wybodaeth bellach at y Pwyllgor yn ei llythyr, dyddiedig 1 Tachwedd. Bu'r Aelodau hefyd yn ystyried yr ymatebion a gafodd Pwyllgor Deddfwriaeth 1 yn ei ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig.

## Cefndir

3. Byddai'r Mesur arfaethedig yn rhoi i Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch gwaith adeiladu yng Nghymru sy'n cynnwys:

- adeiladu preswylfeydd newydd;
- trosi adeilad presennol i greu un breswylfa neu fwy;
- isrannu neu gyfuno preswylfeydd presennol.

4. Byddai deddfwriaeth o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol bod pob preswylfa newydd a gaiff ei chreu yn cynnwys system llethu tân awtomatig sy'n gweithio'n effeithiol ac yn cydymffurfio â rheoliadau i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.

5. Byddai methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd hon yn cyfateb i dorri rheoliadau adeiladu a byddai'n ddarostyngedig i'r un camau gorfodi â'r rhai a fyddai'n gymwys pe bai achos o dorri rheoliadau o dan *Ddeddf Adeiladu 1984*.

6. Mae'r Mesur arfaethedig ond yn gymwys i breswylfeydd a adeiladir o'r newydd, adeiladau presennol a gaiff eu trosi i greu un breswylfa neu fwy, neu breswylfeydd presennol a gaiff eu hisrannu neu eu cyfuno. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i ôl-osod systemau llethu tân awtomatig mewn adeiladau sydd eisoes yn bodoli.

7. Mae'r diffiniad o breswylfa yn cynnwys tai annedd, fflatiau, cartrefi gofal preswyl, ysgolion preswyl, colegau preswyl a neuaddau preswyl i fyfyrwyr. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gymwys i greu tai newydd amlfeddiannaeth ac ardaloedd cyffredin fel grisffyrdd mewn adeiladau sy'n cynnwys mwy nag un breswylfa newydd.

## Costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig

*Y prif gostau*

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi[1] mai'r prif gost fydd cost cyfalaf gosod systemau llethu tân awtomatig mewn eiddo y mae'r Mesur arfaethedig yn gymwys iddo. Cost gysylltiedig bosibl arall yw cynyddu cyflenwadau dŵr. Fodd bynnag, bydd y systemau'n cael eu gosod mewn datblygiadau tai newydd yn bennaf, lle y darperir dŵr o'r prif gyflenwad at ddefnydd domestig beth bynnag, felly cymharol fach fyddai'r costau ychwanegol o ran y systemau llethu tân awtomatig. Yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth 1, dywedodd Dŵr Cymru y byddai costau ychwanegol sylweddol yn gysylltiedig â darparu cysylltiad taenellwyr i dai newydd a nododd gostau ychwanegol o £695 i £976 ar gyfer bob tŷ, yn dibynnu ar lefel y gwaith cloddio ac adfer sydd ei angen.

---

[1] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.7

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi[2] ei bod yn anodd rhoi amcangyfrif manwl gywir o'r gost o osod systemau llethu tân awtomatig mewn anheddau domestig oherwydd bydd y gost yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys maint a dyluniad yr eiddo. Bydd hefyd yn dibynnu ar nifer yr eiddo mewn datblygiad sy'n cael systemau o'r fath wedi'u gosod. Mae'r amcangyfrifon o'r costau hyn yn amrywio o lai na £1,000 i fwy na £2,500 am bob eiddo, er y gall cyfnewid cynlluniau ac arbedion eraill adennill rhywfaint o'r costau neu'r holl gostau. Er nad yw'r Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw, gall y costau cynnal a chadw blynyddol fod rhwng £20 a £100 y flwyddyn.

10. Mae'r gost o osod systemau mewn eiddo newydd yn debygol o fod yn is nag mewn eiddo a gaiff ei drosi oherwydd gellir cynllunio a chynnwys y systemau o'r cychwyn cyntaf. Hefyd, mae'n bosibl y bydd modd gwneud arbedion a chyfaddawdau drwy osgoi'r angen am systemau atal tân eraill.

11. Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, gofynnodd nifer o dystion pa mor ddibyniadwy yw'r amcangyfrifon o £1,000 i £2,500. Er enghraifft, awgrymodd Bovis Homes[3] y gall fod dros £3,000 i bob annedd. Mae'r cwmni'n disgrifio hyn fel bron teirgwaith y ffigurau a awgrymwyd gan yr asesiad effaith rheoleiddiol - er, mewn gwirionedd, ochr uchaf yr amrediad yn y Memorandwm Esboniadol yw £2,500. Cyfeiriodd Cartrefi Cymunedol Cymru at gynllun peilot i ymchwilio i'r anawsterau technegol a'r gost sy'n gysylltiedig â gosod taenellwyr domestig. Cyfanswm y gost o osod taenellwyr mewn naw byngalo newydd i bobl dros 55 oed, gydag un o'r byngalos hynny'n cynnwys addasiadau ar gyfer defnyddiwr anabl, oedd tua £46,000. Golyga hyn gost o dros £5,000 i bob byngalo, ac mae'n cynnwys cost y system taenellu, y gwaith trydanol ac adeiladu, a gwaith ar y brif bibell ddŵr sy'n dod i mewn.

12. At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi[4] y gallai cost gosod y system ostwng wrth i'r farchnad ddatblygu.

*Costau cyffredinol*

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol[5] yn nodi, ar sail y tybiaethau gwahanol a wnaed o ran costau a maint ac ati, mai cost gosod system

[2] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.12-14
[3] Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, ymateb i'r ymgynghoriad gan Bovis Homes Group Plc, DFS 15
[4] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.23
[5] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.21

o'r fath fyddai £1,223 i bob annedd ar gyfartaledd, gydag amcangyfrif isel o £978 ac amcangyfrif uchel o £1,719. Mae'n datgan[6] bod yr amcangyfrifon hyn yn cyd-fynd ag amcangyfrifon nifer o ffynonellau eraill y mae'n cyfeirio atynt.

14. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, gallai cyfanswm y gost o osod systemau llethu tân awtomatig mewn 10,000 o breswylfeydd bob blwyddyn fod rhwng £10 miliwn a £17 miliwn y flwyddyn. Os derbynnir yr amcangyfrifon uwch a awgrymwyd gan un neu ddau dyst, byddai'r cyfanswm gymaint yn uwch.

*Pwy fydd yn talu*

15. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi[7] mai'r rheini sy'n adeiladu eiddo newydd neu'n trosi defnydd eiddo sydd eisoes yn bodoli at ddefnydd preswyl fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau hynny sy'n gysylltiedig â darpariaethau'r Mesur arfaethedig.

16. Mae'n bosibl mai'r sawl fydd yn prynu'r eiddo fydd yn ysgwyddo'r gost o ran prisiau tai uwch, neu mae'n bosibl mai perchennog y tir fydd yn ei hysgwyddo, a hynny oherwydd costau tir is os na fydd systemau taenellu yn cynyddu gwerth tai.

17. Fodd bynnag,[8] mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn disgwyl y byddai modd adennill llawer o'r costau hyn dros oes y system a hynny drwy brisiau tai uwch, rhent uwch neu brisiau tir is. Yn ei llythyr, dyddiedig 1 Tachwedd,[9] mae Ann Jones yn cyfeirio at waith mwy diweddar sy'n dangos y dylai cystadleuaeth leihau'r gost o osod y system, fel y gwnaiff cynnwys systemau pan gaiff adeiladau eu dylunio.

18. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am effaith bosibl y costau ychwanegol hyn ar werthu tai a'r galw am dai. Dywedodd Mr Enness[10] nad oedd tystiolaeth y byddai unedau taenellu yn arafu'r farchnad dai, ac yn wir, bod y dystiolaeth o America yn awgrymu'r gwrthwyneb. Roedd ganddo hefyd dystiolaeth anecdotaidd fod perchnogion tai yn ffafrio tai lle mae taenellwyr wedi'u gosod. Ar y llaw arall, dywedodd

---

[6] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.17
[7] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.6
[8] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.7
[9] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-19-10(p3), *Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) – gwybodaeth bellach gan Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig*, 18 Tachwedd 2010
[10] Cofnod y Trafodion p29, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid

Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai yn ei dystiolaeth[11] i Bwyllgor Deddfwriaeth 1 nad oedd yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth y byddai priswyr yn cydnabod unrhyw bremiwm a fyddai'n gysylltiedig â thŷ sy'n cynnwys taenellwyr, ac nad oedd Cyngor y Benthycwyr Morgais yn ymwybodol o dystiolaeth o'r fath chwaith. Hefyd, dywedodd Mr Enness wrth y Pwyllgor Cyllid fod y farchnad dai yn amrywio 1 neu 2 y cant bob mis – sy'n fwy na chost uned taenellu. Dywedodd Ann Jones wrth y Pwyllgor[12] fod taenellwyr tân yn rhan o newid diwylliannol graddol i lefelau uwch o ddiogelwch yn y gymdeithas yn gyffredinol, fel ymateb i alw gan gwsmeriaid, a bod pobl yn barod i dalu'r pris ychwanegol ac, yn wir, eu bod yn disgwyl y lefelau uwch o ddiogelwch a ddarperir.

19. Roedd y sefyllfa ychydig yn wahanol mewn perthynas â sefydliadau fel cymdeithasau tai a oedd yn gweithio i gyllidebau sefydlog. Yn gyffredinol, byddai cynnydd mewn costau eiddo'n golygu gostyngiad yn nifer y tai y gallai'r cymdeithasau hynny eu hadeiladau. Yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth 1, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru y byddai'n rhaid dod o hyd i ryw ffordd o dalu am y gost ychwanegol o osod systemau llethu tân awtomatig mewn tai fforddiadwy, naill ai drwy godi cyfraddau rhent, cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru neu fwy o hyblygrwydd o ran safonau manylebau a gofod. Fel ymateb i hyn, dywedodd Ann Jones[13] ei bod yn debygol y bydd rhai arbedion o ganlyniad i ryddid cynllunio a ddaw yn sgil cynnwys systemau llethu tan awtomatig mewn tai cymdeithasol newydd. Fodd bynnag, cytunodd â'r pwynt a wnaed gan y Gweinidog yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth na fyddai hyn yn atal y broses rhag mynd yn ei blaen.

*Costau cynnal a chadw*

20. Er nad yw'r Mesur arfaethedig ei hun ym ymdrin â gwaith cynnal a chadw, mae costau cynnal a chadw parhaus yn anochel a deiliad neu landlord yr eiddo fydd yn debygol o ysgwyddo'r costau hyn. Ni fydd unrhyw gostau cynnal a chadw yn ystod y flwyddyn gyntaf ond bydd hyn yn codi i tua £250,000 ar gyfer yr ail flwyddyn a £500,00 ar gyfer y drydedd flwyddyn ac yn y blaen. Yn ei llythyr[14] i'r Pwyllgor, dywedodd Ann Jones fod y tybiaethau a wnaed yn y Memorandwm Esboniadol yn seiliedig ar y syniad y bydd y gwaith cynnal a chadw blynyddol yn costio £75 gyda thraean o ddeiliaid yn ymgymryd â'r

---

[11] Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, ymateb i'r ymgynghoriad gan Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai, DFS 23

[12] Cofnod y Trafodion p45 & 56, 14 October 2010, y Pwyllgor Cyllid

[13] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-19-10(p3), *Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) – gwybodaeth bellach gan Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig*, 18 Tachwedd 2010

[14] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-19-10(p3), *Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) – gwybodaeth bellach gan Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig*, 18 Tachwedd 2010

gwaith hwn. Aeth ymlaen i ddweud ei bod y anodd iawn amcangyfrif yn gywir pa mor aml y bydd pobl yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y systemau hyn.

*Costau eraill*

21. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi[15] y bydd costau ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o ran gweinyddu a gweithredu'r Mesur arfaethedig. Byddai'r rhain yn dibynnu ar safonau a rheoliadau, er disgwylir i'r costau hyn fod yn isel iawn.

*Costau a manteision*

22. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan[16] y bydd y manteision a fydd deillio o'r costau hyn yn cynnwys arbed bywydau, osgoi anafiadau, diogelu eiddo, cynnydd mewn gwerth ailwerthu eiddo, osgoi costau ailgartrefu, llai o gostau i'r gwasanaethau tân, manteision amgylcheddol ac arbedion eraill. Yn ei thystiolaeth lafar,[17] dywedodd Ann Jones y bu 23 o farwolaethau o ganlyniad i dân yn 2009-10 ac mai cost hyn i'r economi oedd £23 miliwn - heb ystyried anafiadau difrifol, y gost o ailgartrefu pobl sy'n goroesi, y golled bersonol y bydd teulu'r person a fu farw yn ei dioddef, neu'r costau i'r GIG.

23. Yn ei llythyr nesaf,[18] dywedodd Ann nad oes cymhariaeth uniongyrchol yn y Memorandwm Esboniadol o gostau yn erbyn manteision a'i fod yn edrych ar amcangyfrifon eang o ran costau a manteision. Dywedodd hefyd nad oes unrhyw ymdrech wedi cael ei wneud i fesur yr hyn y mae hi'n disgrifio fel y manteision amgylcheddol sylweddol y mae taenllwyr yn eu cynnig.

## Trafodaeth a chasgliadau

24. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ac yn croesawu'r ystod eang o wybodaeth ariannol a ddarparwyd i gefnogi'r Mesur arfaethedig hwn. Mae'n amlwg y gwnaed ymdrech sylweddol i asesu ei oblygiadau ariannol - ond rhaid i'r Pwyllgor nodi bod llawer o ansicrwydd o hyd o ran y costau cysylltiedig.

---

[15] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.8
[16] Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol paragraff 8.9
[17] Cofnod y Trafodion p10, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid
[18] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-19-10(p3), *Goblygiadau Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) – gwybodaeth bellach gan Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig*, 18 Tachwedd 2010

25. Bydd y Mesur arfaethedig yn effeithio fwyaf ar eiddo newydd lle'i bod yn anorfod y bydd gosod system llethu tân yn arwain at gynnydd mewn costau adeiladu. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y bydd y costau hyn rhwng £1,000 a £2,500, er bod rhai tystion yn awgrymu y gallai'r ffigur fod yn fwy na £3,000 ac mewn un cynllun peilot, roedd y costau ychydig dros £5,000 i bob uned. Roedd gan dystion safbwyntiau gwahanol ynghylch costau systemau taenellu ac effaith bosibl y costau hynny ar y farchnad dai. Mae'n amlwg bod angen gwneud mwy o waith ar y rhain ond nid oes unrhyw dystiolaeth y byddant yn cael eu hystyried i fod yn faich sylweddol ar bobl sy'n prynu tai nac yn cael effaith sylweddol ar y farchnad dai. Yn wir, mae rhai'n awgrymu y gallai tai lle gosodwyd systemau o'r fath ddod yn fwy dymunol na thai lle nad oes system llethu tân.

26. Roedd y Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi, mewn rhai ffyrdd, y gellid ystyried gosod systemau taenellu fel dim ond un elfen yn y broses barhaus o geisio gwella safonau tai, fel drwy reoliadau adeiladu gwell. Nododd hefyd y gellid disgwyl y bydd costau'n syrthio yn sgil datblygiadau dylunio a mwy o gystadleuaeth.

27. Mae'n debygol y bydd y gost o osod systemau llethu tân fel rhan o'r gwaith o drosi eiddo yn uwch ac yn fwy amrywiol gan y bydd yn dibynnu ar ddyluniad a safle'r eiddo dan sylw. Fodd bynnag, mae llai o wybodaeth fyth ar gael ar y rhain.

28. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi os bydd gosod system daenellu yn cynyddu costau adeiladu y gallai hyn effaithio ar sefydliadau fel cymdeithasau tai sy'n gweithio i gyllidebau sefydlog – neu ar y Llywodraeth, yn ei thro, os bydd angen iddi ariannu'r costau ychwanegol. Bydd costau cynnal a chadw hefyd yn effeithio fwy ar sefydliadau tebyg.

29. Os bydd gosod systemau taenellu yn dod yn ofynnol, mae'n anorfod y bydd hyn yn arwain at gostau o ran gweinyddu a gweithredu'r Mesur arfaethedig. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn anghytuno â'r farn a fynegwyd yn y Memorandwm Esboniadol mai bach iawn fydd y costau hyn. Wedi dweud hynny, mae hefyd yn nodi y byddai'r costau yn dibynnu ar safonau a rheoliadau.

30. Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd gorchmynion o dan y Mesur arfaethedig hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei baratoi ac y bydd angen paratoi asesiad ariannol mwy penodol bryd hynny.

31. Yn amodol ar y sylwadau hyn, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi'r Mesur arfaethedig.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**